# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 4 Mehefin 2020

Amser: 14.00 - 15.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6347

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Nick Ramsay AS<br>Mark Reckless AS |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd<br>Margaret Davies, Llywodraeth Cymru<br>Matthew Denham-Jones, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN1 - Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol: Capasiti'r Senedd - 15 Mai 2020**

**2.2 PTN2 - Llythyr gan Awdurdod Cyllid Cymru - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20 - 22 Mai 2020**

**2.3 PTN3 - Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at yr Archwilydd Cyffredinol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Adroddiadau Statudol - 29 Mai 2020**

## 3 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Matthew Denham-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol; a Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor:

- gan nodi faint o gyllid ychwanegol cyffredinol ar gyfer COVID-19 y bydd pob bwrdd iechyd yn ei gael yn y gyllideb atodol hon;
- gan rannu dangosyddion perfformiad allweddol yr adran iechyd ar gyfer mesur effeithiolrwydd y gwariant gwerth £57 miliwn i gefnogi'r Strategaeth Profi Olrhain Diogelu, o ran y cyfalaf sy'n ofynnol i sefydlu'r rhaglen a'i chostau gweithredu;
- a chan nodi canlyniad ei thrafodaethau â'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch y cyllid ar gyfer Swyddogion Cyswllt Lluoedd Arfog.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 15 Mehefin 2020

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.